# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2011.

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G.Davies ; Eric Jones; R.Dylan Jones; Eric Roberts; P.S.Rogers; Ieuan Williams; John Penri Williams; |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni (GM);<br>Rheolydd Sgriwtini (BS);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.I.Hughes; H.Thomas;<br>Mr Keith Roberts; |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge; Byron Davies, Mick.Giannasi; |

Draft

---

Cyn cychwyn ar Raglen y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd nad oedd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), Miss Einir Thomas, yn gallu bod yn bresennol oherwydd profedigaeth. Ar ran y Pwyllgor, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad diffuant â Miss Thomas yn ei phrofedigaeth drist o golli ei mam ac â unrhyw Gynghorydd neu aelod o staff arall a all fod wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Safodd aelodau'r Pwyllgor mewn tawelwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un Datganiad o Ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

**2 CYLLIDEB 2012/2013**

Anerchodd y Comisiynydd Byron Davies y Pwyllgor ar y sefyllfa hyd yma o ran cyllideb 2012/13. Rhoes amlinelliad o siwrnai'r Comisiynwyr mewn perthynas â'r gyllideb ers Ebrill 2011 pan ddaethant i'r Cyngor. Roedd wedi nodi cyllideb 2011/12 fel un heriol iawn, yn arbennig felly'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ac roedd yn gwybod y byddai'n anodd iawn cyflawni'r holl gynigion.

O bersbectif strategol a'r canlyniadau ar gyfer 2010/11, dim ond yr wythnos hon y cafodd y cyfrifon eu cwblhau a'u llofnodi.

Mae chwe mis o gyllideb 2011/12 bellach wedi mynd heibio a bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr ar 14 Tachwedd. Yn ôl yr arwyddion, mae'r Cyngor mewn sefyllfa gweddol gyfforddus; fodd bynnag, bydd angen cadw llygad barcud ar y rhagamcanion ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon.

Ni wyddys eto beth fydd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13; fodd bynnag, nid yw pethau'n edrych yn dda. Dywedodd y Comisiynydd Davies nad oedd CLlLC o blaid cael llawr, gyda thoriad o 1% yn gwneud gwahaniaeth mawr yn arbennig felly o safbwynt darparu gwasanaethau. Roedd darpariaeth wedi cael ei gwneud ar gyfer chwyddiant, sef 5% a gofynnwyd i bob Maes Gwasanaeth / Y

Canol Corfforaethol ddod o hyd i arbedion o 5% ac roedd ef o'r farn bod hyn yn beth doeth i'w wneud. Dywedodd y byddai'n egluro'r strategaeth gyllidebol yn fanwl yn y cyfarfod o'r Bwrdd ar 14 Tachwedd.

Roedd y Comisiynwyr wedi nodi bod y Canol Corfforaethol yn wan ac roeddynt yn bwriadu sicrhau y byddai'n cael ei gryfhau'n sylweddol. Nid oedd y systemau TG meddai yn addas i'r pwrpas ac roedd angen eu huwchraddio ar frys.

Dylid creu diwylliant ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol da a dylid monitro'n ofalus y modd y mae Polisïau a Chynlluniau'n cael eu darparu. Byddid yn edrych ar amryfal ffyrdd o gryfhau'r canol corfforaethol gan gynnwys edrych ar yr arian wrth gefn a'r balansau.

Roedd trafodaethau wedi cychwyn gyda Swyddogion a byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Deilyddion Portffolio Cysgodol er mwyn sicrhau bod mewnbwn cynhwysfawr cyn i'r cynigion ar gyfer y gyllideb gael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir. Cydnabu'r Comisiynydd Davies hefyd bwysigrwydd Ymgysylltiad Cymunedol. Dywedodd y byddai'n dymuno setlo'r gyllideb mewn modd cyfeillgar ym mis Chwefror er mwyn anfon neges i bobl Ynys Môn ac i Gyrff yng Nghymru bod y Cyngor yn gwneud dewisiadau rhesymedig a chyfrifol a'i fod wedi gwneud bob ymdrech i ostwng y Dreth Gyngor. Mae angen i'r Awdurdod warchod y bregus, yr henoed a'r ifanc a dylai'r rheiny fedr fforddio talu wneud hynny a dylid gwarchod pobl fregus. Mae'n bwysig darparu manylion clir ynghylch y ffigyrau ar gyfer Band D y Dreth Gyngor er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod bod y gost nid yn unig yn cynnwys cyfraniad i'r Cyngor Sir ond hefyd i'r Cynghorau Cymuned, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.

Ychwanegodd mai prif gostau'r Cyngor yw cyflogaeth, yr un modd a phob Awdurdod Lleol, ac i'r perwyl hwn, mae'r Comisiynwyr wrthi'n cael trafodaethau gyda'r Undebau Llafur ynghylch nifer o'r Telerau a'r Amodau cyfredol megis tâl diswyddo, arfarnu swyddi, absenoldeb salwch, defnyddwyr car hanfodol ac ati.

Ymatebodd y Comisiynydd Davies i gwestiynau gan yr Aelodau a phwysleisiodd ei bod hi'n bwysig datblygu elfennau Economaidd a Thwristaidd yr Ynys. Dywedodd fod pobl angen swyddi a thai a bod Ynys Môn mewn sefyllfa ffafriol ar y funud gyda llawer iawn o gynnydd yn cael ei wneud mewn amryfal ffyrdd i ddatblygu'r Ynys. Dywedodd y Comisiynydd Davies y byddai'n mynychu'r cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr i siarad ar y Gyllideb Gyfalaf. Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau iddo am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth ac am y drafodaeth ddefnyddiol a gafwyd wedyn.

Roedd y Comisiynydd Aldridge yn cymeradwyo'n llawn y sylwadau arbenigol a wnaed gan y Comisiynydd Davies. Ychwanegodd bod ganddo ffydd anferthol yn y Prif Weithredwr Dros Dro a'i ddymuniad oedd i'r Comisiynwyr adael yr Ynys gyda sylfaen gref a chadarn ar gyfer y dyfodol ac un a fyddai'n gynaliadwy i'r tymor hir. Cydnabu'r Comisiynydd Giannasi arbenigedd y Comisiynydd Davies mewn perthynas â materion Rheoli a phwysleisiodd ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl yr Ynys.

**Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynwyr am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyfraniad gwerthfawr a PHENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 3 FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad y Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr i'w fabwysiadu yn eu cyfarfod ar 14 Tachwedd 2011.

Mae'r fframwaith yn cefnogi cyflawni gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor fel y cânt eu pennu yng Nghynllun Busnes 2011/12 ac mae'n cynorthwyo'r Cyngor i weithio tuag at ei flaenoriaethau strategol. Amlinellodd y materion cefndirol sy'n berthnasol i'r ddogfen ac eglurodd sut y mae'r fframwaith yn allweddol ar gyfer llywodraethu effeithiol gyda'i egwyddor sylfaenol yn un o welliant parhaus.

Draft

Nododd yr Aelodau y goblygiadau a'r effaith a gaiff y fframwaith ar amryfal adrannau ynghyd â'r canlyniadau y byddai'r sefydliadau yn eu sicrhau. Pwysleisiodd y Swyddog fod cyfrifoldeb ar bawb i gefnogi'r fframwaith ond rhaid i'r Arweinyddion, rhaid Gwleidyddol a Rheolaethol, ei yrru yn ei flaen. Eglurodd y fenter Cynllunio Strategol ac Ymgysylltiad a dygodd sylw at bwysigrwydd Ymgysylltiad Cymunedol. Cyfeiriodd at y prosesau Mesur a Rheoli Perfformiad a nododd yr Aelodau y Templed Monitro a oedd yn rhan o'r fframwaith. Yn ogystal, pwysleisiodd y byddai Cynlluniau Darparu Gwasanaeth yn seiliedig ar Ganlyniadau.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelod, dywedodd y Swyddog y byddai'n anodd rhoi cyllid yn erbyn pob tasg gwasanaeth, ond rhoes sicrwydd y bydd Swyddogion yn tracio perfformiad gwasanaethau yn erbyn camau gweithredu ac yn nodi gwariant. Byddai'r system "CAG" o gymorth yn hyn o beth. Dywedodd y Comisiynydd Giannasi ei bod hi'n hynod anodd darparu Cynlluniau Busnes wedi'u costio'n llawn, fodd bynnag, wrth i'r system aeddfedu, byddai'n gobeithio nodi gwariant ac roedd yn cydnabod ei bod yn bwysig symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad at y Fframwaith Gwella Busnes sy'n cynnwys amserlen flynyddol yn diffinio'r broses cynllunio busnes. Bydd achosion busnes yn cael eu hadolygu mewn nifer o gyfarfodydd ac ar wahanol adegau yn ystod y broses a bydd yr holl achosion busnes yn cael eu hystyried o ran eu blaenoriaeth, risg a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Awdurdod. Dygodd sylw at y rhan o'r Fframwaith sy'n ymwneud ag Archwilio a Rheoleiddio, Sialensiau Mewnol a'r Amserlenni arfaethedig.

Llongyfarchodd y Comisiynydd Giannasi y swyddog ar ei waith a gefnogwyd gan yr Uned Bolisi, y Prif Weithredwr Dros Dro, y Comisiynwyr a chymorth o'r tu allan. Yn ei farn ef, roedd y ddogfen yn broffesiynol, yn gynhwysfawr ac yn fan cychwyn da. Roedd o'n credu bod Ymgysylltiad Cymunedol yn hanfodol ac yn fater y dylid ei ymestyn. Byddai'n croesawu mynd â gwasanaethau allan i'r bobl a newid y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio ac yn darparu ei wasanaethau. Mae pryderon y rhan fwyaf o bobl yn ymwneud â swyddi, tai, llecynnau chwarae, gwagio biniau a chael lle diogel i fyw ynddo. Roedd o'n derbyn y byddai'r siwrnai i drawsnewid y modd y mae'r cyngor yn cyflawni ei fusnes yn un faith ac y byddai newidiadau diwylliannol yn y modd y mae staff yn gwneud eu gwaith ond teimlai bod hwn yn fan cychwyn da ac yn gyfle delfrydol i ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Rhoes sicrwydd y byddai'r Comisiynwyr yn cefnogi'r Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad. Byddai'n annog gosod system TG dda. Byddai'r Comisiynwyr yn adrodd i'r Gweinidog bob chwarter a byddai'r fframwaith hwn yn rhan bwysig o'r drafodaeth honno.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad ac yn argymell bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei fabwysiadu ar 14 Tachwedd a bod adnoddau digonol (o bersbectif staff, TG a chyllid) yn cael eu rhyddhau i yrru'r fframwaith yn ei flaen.**

Draft

## 4 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol ei hadolygu a thrafodwyd eitemau ar gyfer eu cynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini y byddai'n beth doeth efallai cynnal y cyfarfod nesaf ddechrau mis Rhagfyr pryd byddai'r Comisiynydd Davies mewn gwell sefyllfa i ddiweddaru'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb. Gofynnodd yr Aelodau i nifer o eitemau gael eu cynnwys ar raglenni yn y dyfodol ar gyfer eu trafod.

**Penderfynodd y Pwyllgor:-**

**(i) gynnwys y pynciau isod ar y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol:-**

- **Capasiti Corfforaethol – Cryfhau'r Canol**
- **Risg – Y Diweddaraf ar y Gofrestr Risg**
- **Cynllun Cymunedol (Bwrdd Gwasanaeth Lleol)**

- **Cydweithio**
- **Cwynion**
- **Arfarnu Swyddi**

Croesawodd y Cadeirydd gais gan y Comisiynydd Giannasi i Menter Môn annerch y cyfarfod yn y dyfodol.

**(ii) Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys hyn yn ei raglen waith.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

Draft